WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Aneurin Phillips
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 106A2014 |
| **Dyddiad** | 27 Ionawr 2014 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Aneurin

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 27 Medi 2013, rhoddais fy marn ar a oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ar a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

### Yn fy marn i, ac ar sail gwaith archwilio a wnaed hyd yma, mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur

Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur:

- cyhoeddodd yr Awdurdod asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2012/13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn amlinellu sut y mae'r Awdurdod wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys dangosyddion perfformiad ar gyfer nifer o feysydd, a lle bo'n briodol a'r wybodaeth ar gael, mae'n cymharu ei berfformiad â'i berfformiad yn y flwyddyn flaenorol a pherfformiad awdurdodau parciau cenedlaethol eraill;
- mae'r Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant yr Awdurdod yn cyflawni ei amcanion gwella;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion sydd eisiau rhoi adborth neu wneud sylwadau ar yr adolygiad; ac
- mae'r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ar y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi ceisio cydweithredu.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Ni cheir cynigion ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan yr Awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

Byddaf yn gwneud gwaith manylach ar y trefniadau sy'n ategu prosesau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad yr Awdurdod dros y misoedd nesaf ac yn adrodd arno, yn ogystal â chrynhoi fy ngwaith fy hun i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn adroddiad gwella blynyddol i'r Awdurdod y byddaf yn ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Copi: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

John Griffiths, Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

John Roberts, Arweinydd Archwilio Perfformiad